CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: **Cabinet**

Dyddiad y Cyfarfod: **3 Medi 2024**

Teitl: **Cartref Gofal Preswyl Tregerddan – Ymgynghoriad Cyhoeddus**

Pwrpas yr adroddiad: **Rhoi adborth yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach ar y 2il o Fedi 2024**

Cefndir:
Ar 19 Mawrth 2024 cytunodd y Cabinet ar y canlynol:
Cymeradwyo symud ymlaen gyda'r gofyniad statudol i ymgynghori ar drosglwyddo'r gwasanaeth gofal preswyl o Gartref Tregerddan i Gartref Gofal Preswyl Hafan y Waun.

Agorodd ymgynghoriad cyhoeddus ar 22 Ebrill 2024 a daeth i ben ar 15 Gorffennaf 2024.

Pwrpas y papur hwn oedd darparu adolygiad o adborth yr ymgynghoriad.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor Craffu ystyried y canlynol:

1. Nodi'r cefndir a'r rhesymeg dros ystyried trosglwyddo preswylwyr ac uno timau staff rhwng Cartref Tregerddan i Gartref Gofal Preswyl Hafan y Waun.
2. Nodi canlyniadau'r broses ymgynghori a gynhaliwyd rhwng 22 Ebrill 2024 a 15 Gorffennaf 2024.
3. Argymell i'r Cabinet ei fod yn cymeradwyo trosglwyddo preswylwyr ac uno timau staff rhwng Cartref Tregerddan a Chartref Gofal Preswyl Hafan y Waun.
4. Yn amodol ar gymeradwyaeth (3) uchod, awdurdodi'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Gofal i:
    i. Sicrhau bod amserlen yn cael ei llunio ar gyfer trosglwyddiadau preswylwyr rhwng cartrefi, mewn ffordd sy'n
        a. yn cydbwyso'r angen i bob unigolyn a'i deulu gael amser priodol i wneud penderfyniadau yn erbyn yr angen cyffredinol am y broses gau,
        b. i'w reoli o fewn amserlen sy'n lleihau ansicrwydd i'r preswylwyr, teuluoedd a staff.

Argymhelliad(ion):
Yn dilyn trafodaeth faith, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i argymell bod y Cabinet yn:
1. nodi'r cefndir a'r rhesymeg dros ystyried trosglwyddo preswylwyr ac uno timau staff rhwng Cartref Tregerddan i Gartref Gofal Preswyl Hafan y Waun.
2. nodi canlyniadau'r broses ymgynghori a gynhaliwyd rhwng 22 Ebrill 2024 a 15 Gorffennaf 2024.

Ystyriwyd argymhellion 3 a 4 yn dilyn newid i'r argymhelliad a gynigiwyd gan y Cynghorydd Carl Worrall ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Wyn Evans, fel a ganlyn:
3. Cadw Cartref Tregerddan ar agor.

Yn dilyn pleidlais, roedd y canlyniad fel a ganlyn:
5 O blaid y gwelliant, 5 Yn erbyn ac 1 wedi ymatal ei bleidlais. Yn yr amgylchiadau hyn, roedd gan y Cadeirydd bleidlais fwrw ac felly **ni chytunwyd** ar yr argymhelliad hwn.

Yna dychwelodd y Cadeirydd at argymhellion 3 a 4 fel a ganlyn (yn unol â'r adroddiad):

3. ei fod yn cymeradwyo trosglwyddo preswylwyr ac uno timau staff rhwng Cartref Tregerddan a Chartref Gofal Preswyl Hafan y Waun.
4. Sicrhau bod amserlen yn cael ei llunio ar gyfer trosglwyddiadau preswylwyr rhwng cartrefi, mewn ffordd sy'n:
    a. yn cydbwyso'r angen i bob unigolyn a'i deulu gael amser priodol i wneud penderfyniadau yn erbyn yr angen cyffredinol am y broses gau,
    b. i'w reoli o fewn amserlen sy'n lleihau ansicrwydd i'r preswylwyr, teuluoedd a staff.

Yn dilyn pleidlais, roedd 4 o blaid, 5 yn erbyn a 2 wedi atal eu pleidlais.

Gan na chytunwyd ar yr argymhelliad diwygiedig (i gadw Cartref Tregerddan ar agor) ac argymhellion gwreiddiol 3 a 4, nid oes gan y Pwyllgor unrhyw argymhellion pellach i'r Cabinet yn ymwneud â throsglwyddo preswylwyr ac uno timau staff rhwng Cartref Gofal Preswyl Tregerddan a Hafan y Waun.

Diolch.

Y Cynghorydd Ceris Jones
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach